TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

LLENYDDIAETH GYMRAEG

IONAWR 2018

© WJEC CBAC Cyf.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

© WJEC CBAC Cyf.

LLENYDDIAETH GYMRAEG UNED 1

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

Ionawr 2018

Haen Uwch

Cryfderau:

Etifeddiaeth: Roedd y canolfannau'n amlwg wedi trwytho'r dysgwyr yn y gerdd hon o ran cynnwys a chefndir. Gwelwyd rhai enghreifftiau lle roedd gan yr ymgeiswyr wybodaeth gefndirol helaeth iawn gyda'r ymatebion hyn yn dangos cryn aeddfedrwydd. Prin oedd yr enghreifftiau o orddibynnu ar nodiadau a theimlwyd bod gan y dysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'r gerdd.

Crwydro: Roedd dealltwriaeth o gynnwys y gerdd yn dda ar y cyfan gyda mwyafrif y dysgwyr yn ymdrin â'r gerdd fesul pennill ac yn ystyried y teitl hefyd. Y dysgwyr mwyaf hyderus oedd yn mentro i ddadansoddi arwyddocâd rhai o linellau'r gerdd ac yn gweld ystyr ddyfnach mewn llinellau megis "lle bu gynt gymdeithas lawen" a thrafod symbolaeth y "machlud". Dylid annog mwy o'r hyder hwn i fentro dehongliadau personol ar sail llinellau/geiriau o'r cerddi. Gall esgor ar wreiddioldeb sy'n arwain at dreiddgarwch.

Treiddgarwch: Arfer dda mewn ambell ganolfan oedd y patrwm o ddechrau rhai brawddegau gyda – "Awgryma…." / "Llwydda hyn i gyfleu…." a gwelwyd yn aml fod hynny'n arwain at sylwadau treiddgar a dysgwyr yn llwyddo i ddarllen rhwng y llinellau.

Strwythur: Y teimlad cyffredinol yw bod canolfannau'n paratoi'r dysgwyr yn dda i strwythuro eu hatebion yn ofalus a bod patrwm a threfn atebion yn dod yn fwyfwy amlwg. Yn yr ymatebion mwyaf aeddfed, gwelwyd ymgeiswyr yn llwyddo i blethu'r cynnwys a'r arddull yn grefftus gan lwyddo hefyd i blethu dyfyniadau i gorff eu brawddegau yn ddeallus.

Arddull: Wrth drafod arddull, roedd y mwyafrif yn llwyddo i enwi nodweddion yn gywir gan ymateb yn dda a threiddgar i effeithiolrwydd y nodwedd a ddefnyddiwyd. Ar y brig, roedd y dadansoddi'n fentrus a'r weledigaeth yn wirioneddol dreiddgar.

Cymharu: Rhaid canmol yr enghreifftiau a welwyd o gymharu cwbl gydlynol a deallus. Roedd y goreuon yn llwyddo i drafod y ddwy gerdd yn grefftus ochr yn ochr gan blethu'r cynnwys a'r arddull. Roedd yr ymatebion gorau'n llwyddo i drafod 'agwedd' y beirdd at eu testun a 'chywair' y cerddi hefyd.

Mesur: Ar y cyfan, roedd y rhai a lwyddai i nodi'r mesur yn gywir hefyd yn llwyddo i gynnig rheswm dilys dros ddewis y mesur hwnnw. Unwaith eto, dylid annog y dysgwyr i fentro rheswm dros y mesur yn hytrach na rhestru nodweddion y mesur yn unig. Roedd esboniad syml megis bod "mesur mydr ac odl yn cyfleu rhythm cerddediad y bardd wrth iddo grwydro" yn taro deuddeg, a'r goreuon yn trafod y wers rydd gynganeddol gyda sylwadau am y gwrthgyferbyniad rhwng "rhyddid y Cymry a chaethiwed ein traddodiadau hynafol" oherwydd y gwrthdaro rhwng y wers rydd a'r gynghanedd.

Termau: Cafwyd defnydd hyderus o dermau beirniadaeth lenyddol a gafael nifer ar enwau termau gramadeg e.e. berfau goddefol, adferf, cysyllteiriau, yn dangos bod y goreuon yn gallu plethu'r hyn a baratoir ar gyfer yr arholiad TGAU Cymraeg Iaith i'w hatebion yn Llenyddiaeth Gymraeg.

Cywirdeb Iaith: Rhaid canmol ymgeiswyr am eu hymdrech i strwythuro brawddegau medrus er mwyn dwyn cymhariaeth ystyrlon rhwng rhyw ddwy nodwedd. Yn aml, byddai hyn wedi ei strwythuro o fewn paragraff trefnus er mwyn datblygu sylw ymhellach.

© WJEC CBAC Cyf.

Meysydd i'w gwella:

Ail Gerdd: Ar ôl ymdriniaeth dda ar y gerdd osod, weithiau gwelwyd trafodaeth fyrrach ar yr ail gerdd a diffyg dadansoddi gofalus. Mae angen annog dysgwyr i ystyried y gerdd yn fwy gofalus, fesul cwpled a phennill, gan osgoi llithro heibio rhai rhannau.

Strwythur a Chymharu: Eithriadau oedd yr atebion 'blêr' o ran strwythur. Mae'r canolfannau'n amlwg yn cynnig patrymau ateb penodol ond amrywiol i ymgeiswyr eu dilyn. Efallai y dylid annog mwy o gymharu cyson drwy gydol y traethawd ac osgoi cadw'r cymharu yn elfen ar ei phen ei hun i'w chynnwys tua diwedd yr ateb.

Ymateb Personol/Thema: Cyfeiriodd ambell farciwr at y duedd i drafod ymateb personol a themâu fel rhyw atodiad ar ddiwedd y traethawd. Cafwyd sylwadau da ond efallai y gellid crynhoi'r rhain a threulio mwy o amser ar y cynnwys/arddull.

Termau ac Enwau: Y llithriadau amlaf o ran termau oedd pethau fel galw pennill yn englyn; cyflythreniad yn gynghanedd; cymysgu bardd a cherdd; pennill a pharagraff; tebygrwydd a thebygolrwydd.

Cywirdeb Iaith: Roedd rhai enghreifftiau o ymgeiswyr oedd yn uchelgeisiol yn yr hyn roeddent yn ceisio ei fynegi, ond yn methu oherwydd cystrawen drwsgl a diffyg geirfa gyffredinol. Eithriadau oedd y rhain, a'r broblem gyffredinol o ran iaith oedd pethau megis cenedl enwau a threigladau yn llesteirio'r dweud.

WJEC CBAC Cyf.

Haen Sylfaenol

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr wedi ymdopi'n dda gyda'r cwestiwn gyda nifer uchel yn gallu dangos dealltwriaeth dda/eithaf da o gynnwys y ddwy gerdd, ac felly'n cyrraedd bandiau marciau 1 neu 2. Llwyddodd canran uchel iawn i gymharu'r ddwy gerdd gyda chanran isel iawn yn methu â chymharu o gwbl.

Roedd y canolfannau gorau yn amlwg wedi modelu dull ateb effeithiol, gan annog cymharu cyson rhwng y ddwy gerdd. Roedd rhai o'r ymgeiswyr a oedd wedi trin y ddwy gerdd ar wahân wedi llwyddo os oedden nhw'n cofio cymharu digon o elfennau yn nes ymlaen yn y traethawd.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi trafod cynnwys y cerddi mewn dau baragraff byr yn unig. Mae marciau helaeth yn mynd tuag at gymharu a thrafod y cynnwys, **felly dylid annog pob ymgeisydd i drafod cynnwys y cerddi'n fanwl.**

Mae lle eto i atgoffa'r ymgeiswyr o bwysigrwydd cywirdeb yr elfennau sylfaenol megis 'dwy gerdd', 'y pennill hwn' 'y llinell hon' ayb.

Maen tramgwydd nifer o'r ymgeiswyr o hyd yw eu bod yn cymharu nodweddion arddull anghymharus. 'Mae rhestru yn … Ond ar y llaw arall does dim rhestru yn …' Roedd nifer yn ysgrifennu tudalennau yn ceisio cymharu nodweddion anaddas.

Roedd y drafodaeth ar effaith y nodweddion arddull yn gryf gan rai, ond roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd ennilll marciau uchel trwy ddweud yn fanwl pam mae nodwedd arbennig yn effeithiol. Roedd rhai ymgeiswyr hefyd yn dibynnu ar y dyfyniadau i esbonio'r cynnwys yn lle esbonio'r cynnwys yn ei geiriau nhw'u hunain. E.e. Mae'r mab yn dweud "dyfyniad" ac wedyn mae'r tad yn ateb "dyfyniad" drosodd a throsodd. Eto ni ellid profi eu bod wedi deall y cynnwys.

Dylid atgoffa ymgeiswyr i geisio ymdrin â'r ddwy gerdd gyda'r un manylder. Roedd nifer yn trafod y gerdd osod yn fanwl ond yn cyfeirio'n gyffredinol iawn at gynnwys yr ail gerdd heb fanylu'n ddigonol.

Byddai rhai ymgeiswyr a oedd wedi cyrraedd brig y bandiau marciau efallai wedi elwa o gael eu rhoi yn yr haen uwch yn hytrach na'r haen sylfaenol.

Clo

Diolch i'r holl ysgolion am eu gwaith caled yn hyfforddi'r ymgeiswyr i drafod cerddi cyfarwydd ac anghyfarwydd gan eu cymharu. Teimlwn fod y disyblion wedi elwa o'r hyfforddiant, a bellach mae cymharu cerddi wedi dod yn sgil y mae mwyafrif yr ymgeiswyr wedi llwyddo i ddeall ei hanfodion.

© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

WJEC CBAC Cyf.